

Yn dilyn y tân yn Noodle One ar y Stryd Fawr, a wnaeth hefyd ddifrodi'r adeilad gerllaw, Morgan, rydym wedi bod yn gweithio tuag at ddymchwel y ddau eiddo yn sgil maint y difrod a sefydlogrwydd yr adeiladau wedi'r tân.

Codwyd sgaffald ar hyd wyneb nifer o'r adeiladau y tybiwyd eu bod yn peri risg i'r Cyhoedd, a chan fod y stryd yn gul mae'r sgaffald ar draws y palmant a lled y briffordd sy'n golygu bod y Stryd Fawr wedi'i chau a bod llwybrau dargyfeirio yn eu lle.

Mae'r adeiladau sy'n peri risg wedi'u hamgylchynu gan gymysgedd o eiddo preswyl a masnachol ac, ynghyd â'r sgaffald, mae hyn yn peri problem o ran dymchwel yr eiddo ac felly bydd angen craen symudol i gael mynediad i'r adeilad er mwyn ei ddymchwel â llaw fel ei fod yn disgyn i mewn i ôl-troed yr adeiladau.

Yn y rhan hon o'r Stryd Fawr mae myrdd o wasanaethau cyfleustodau dan ddaear, o wahanol oed a chyflwr, ynghyd ag isloriau eiddo a hanes o gyflyrau tir gwael. Mae archwiliadau o'r tir wedi canfod bod angen sylfaen stanciau dros dro i gynnal y craen 200 tunnell yn ystod y gwaith dymchwel.

Drwy gydol y cyfnod clo a thu hwnt, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r cwmnïau cyfleustodau, yr awdurdod lleol a pherchnogion adeiladau i gytuno ar gynllun ar gyfer y sylfaen a fyddai'n lliniaru unrhyw ddifrod i adeiladau a gwasanaethau dan ddaear ac fel y gellir cadw'r palmant arall ar hyd ochr orllewinol y Stryd Fawr ar agor, gan fod hwn yn gysylltiad hanfodol rhwng rhan ganolog y Stryd Fawr a Phendref. Yn ogystal, mae gwaith archwilio pellach wedi'i wneud ar y tir gan gynnwys defnyddio radar yn treiddio i'r tir, ac mae dyluniad y gwaith craen a'r sylfeini cynnal wedi'u cwblhau'n derfynol erbyn hyn.

Mae'r ddau adeilad fydd yn cael eu dymchwel wedi dirywio, ac mae'r llawr cyntaf wedi dymchwel yn llwyr yng nghefn rhif 166 – mae yna dal risg y gallai'r adeiladau ddisgyn i'r llawr yn ddirybudd a heb reolaeth.

Drwy gydol y broses hon, diogelwch y Cyhoedd sydd wedi gyrru'r penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud wrth ddarparu craen mawr mewn rhan brysur a chul o'r Stryd Fawr gan geisio rhoi ystyriaeth hefyd i breswylwyr a pherchnogion busnes ynghyd â'r darparwyr cyfleustodau. Mae'r craen a gwmpodd yn Llundain yn gynharach ym mis Gorffennaf yn dangos pam fod cynllunio a rheoli risg manwl yn hanfodol mewn amgylchiadau fel hyn.

Rydym yn agosáu at gwblhau'r cytundeb ariannol a manylion y contract yn derfynol ar gyfer y gwaith, ac mae gennym gcontractwyr mewn lle i adeiladu'r sylfeini dros dro ar gyfer y craen a'r gwaith dymchwel.

Pan fydd gwaith ar y safle yn cychwyn, mae'n debygol y bydd y gwaith o osod y sylfeini a'r gwaith dymchwel yn cymryd oddeutu 12 wythnos i'w gwblhau; y bwriad yw cychwyn y gwaith ar y safle yn yr ychydig wythnosau nesaf.

Hoffem ddiolch i drigolion, perchnogion busnesau, Cyngor Gwynedd a Chyngor Dinas Bangor a'r cwmnïau cyfleustodau am eu hamynedd a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod o baratoi'r gwaith hwn, a byddwn yn darparu diweddariad pellach ynghylch cychwyn y gwaith yn fuan.